# Pecyn Cyhoeddus

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

05/07/2022

**NODER: Oherwydd COVID-19 a iechyd a diogelwch Cynghorwyr a staff, ni all aelodau'r cyhoedd na'r wasg fynychu'r cyfarfod wyneb i wyneb. Anfonwch e-bost at democratiaeth@ceredigion.gov.uk i ofyn am ddolen i weld y cyfarfod**

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trwyddedu - tacsis a materion eraill (anstatudol) yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgan diddordebau personol/diddordebau sy'n rhagfarnu**

3. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2022 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny (Tudalennau 3 - 4)**

4. **Diweddariad cyffredinol Tacsis a materion eraill (Anstatudol) (Tudalennau 5 - 12)**

5. **Amodau Newydd Trwydded Safleoedd Carafannau Gwyliau (Tudalennau 13 - 32)**

6. **Adroddiad am y ffioedd arfaethedig ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 (Tudalennau 33 - 36)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trwyddedu - tacsis a materion eraill (anstatudol)**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu (Anstatudol)**
**a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 24 Chwefror 2022**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones (Cadeirydd), y Cynghorwyr Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Marc Davies, Endaf Edwards, Lloyd Edwards, Elaine Evans, Dan Potter ac Ivor Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorydd Gareth Lloyd (Aelod Cabinet)

**Swyddogion yn bresennol**: Mr Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad; Ms Anne Louise – Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu; Mr Gareth Rees, Uwch Swyddog Trwyddedu; Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(10:25am- 11:10am)

**1 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Mark Strong am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

**2 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Dim.

**3 Cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021 yn rhai cywir.

**4 Materion yn codi**
Cofnod 7 – Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu iddo drafod y mater â'r Heddlu sy'n gyfrifol am draffig. Byddai modd i'r Heddlu gymryd camau gorfodi o ran y mater hwn gan fod gadael i'r injan redeg pan fydd cerbyd yn sefyll yn ei unfan yn anghyfreithlon o dan Adran 42, Deddf Traffig y Ffyrdd 1988. Roedd Rheol 123 yn Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi'r canlynol: "Rhaid i chi beidio â gadael injan cerbyd yn troi yn ddiangen tra bo'r cerbyd hwnnw yn sefyll yn ei unfan ar ffordd gyhoeddus." Dywedwyd bod yr Heddlu wedi cytuno i gynnal patrolau o amgylch y safleoedd tacsis er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Mynegodd yr Aelodau hefyd bryderon fod y broblem hon yn codi y tu allan i ysgolion. Cytunwyd felly i anfon llythyr/e-bost at Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu i ofyn a fyddai modd cynnwys y pwnc hwn o dan Unrhyw Fater Arall yn y cyfarfod a gynhelir yr wythnos nesaf, gan roi sylw penodol i'r llygredd aer a achosir pan fo rhieni yn gadael i injans eu ceir redeg ac yn defnyddio eu ffonau symudol tra bo eu cerbyd yn sefyll yn ei unfan.

**5 Diweddariad Cyffredinol**

Ystyriwyd adroddiad y Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu a'r Uwch Swyddog Trwyddedu a oedd yn hysbysu'r Aelodau o waith yr Adain Drwyddedu ers y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn:-

- Adolygu Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor – Omnibysus a dynnir gan geffylau – Diweddariad
- Adolygu Prisiau Tacsis
- Y Grŵp Ymgynghorol ar Ddiogelwch Digwyddiadau - Eisteddfod Tregaron 2022
- Ceisiadau i Ddosbarthu Ffilmiau
- Trwyddedau Meysydd Carafanau Gwyliau – Adolygu'r Amodau
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD ynghylch y canlynol:-
(i) nodi'r adroddiad er gwybodaeth;
(ii) anfon llythyr/e-bost at Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu i ofyn a fyddai modd cael trafodaeth o dan Unrhyw Fater Arall yn y cyfarfod a gynhelir yr wythnos nesaf ynglŷn â'r llygredd aer a achosir pan fo rhieni yn gadael i injans eu ceir redeg ac yn defnyddio eu ffonau symudol tra bo eu cerbyd yn sefyll yn ei unfan; (gweler Materion yn Codi)
(iii) yr angen i atgoffa gyrwyr bysiau a thacsis ysgol i beidio ag ysmygu y tu allan i'w cerbydau ar safle'r ysgol a gerllaw; a
(iv) nodi y byddai fforwm tacsis yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir gan yrwyr tacsis.

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgor Anstatudol)

**Dyddiad y cyfarfod:** 14 Gorffennaf 2022

**Teitl:** Diweddariad cyffredinol – Tacsis a materion eraill (Anstatudol)

**Pwrpas yr adroddiad:** Er gwybodaeth

**Gwrandawiadau Tacsis – Bod gyrwyr yn gymwys i gadw Trwydded Yrru Ddeuol (Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976)**

Nod y Polisi cyffredinol Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yw diogelu'r cyhoedd a sicrhau priodoldeb y gyrwyr. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn gyfrifol am sicrhau fod person yn gymwys a phriodol i ddal trwydded. Wrth wneud hynny mae'n ystyried ffactorau amrywiol gan gynnwys y canlynol:

- bod y person ddim yn fygythiad i'r cyhoedd;
- bod y cyhoedd yn cael eu diogelu rhag pobl anonest;
- diogelu plant a phobl ifanc;
- diogelu pobl fregus;
- bod gan y cyhoedd hyder yn y cerbydau trwyddedig.

Pan fo ymgeiswyr/deiliaid trwyddedau yn methu â datgelu unrhyw euogfarnau blaenorol, rhybuddion, hysbysiadau cosb, gorchmynion neu gerydd ar eu ffurflen gais, gan gynnwys unrhyw achosion llys neu faterion eraill sydd ar y gweill, gellir eu cyfeirio at yr Is-bwyllgor Trwyddedu i benderfynu yn eu cylch.

Ar 14 Mawrth 2022, cynhaliwyd tri Gwrandawiad Tacsi gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu ac mae manylion yr achosion hyn i'w gweld yn **Atodiad A**.

- Achos #1: Penderfyniad Panel yr Is-bwyllgor oedd dirymu'r drwydded ar unwaith.

- Achos #2: Penderfyniad Panel yr Is-bwyllgor oedd dirymu'r Drwydded Yrru Ddeuol. Fodd bynnag, mae'r gyrrwr wedi apelio yn erbyn y penderfyniad hwn a bydd y mater gerbron Llys Ynadon Aberystwyth ar 8 Awst 2022.

- Achos #3: Caniatawyd i'r gyrrwr gadw ei drwydded.

**Cyfarfod sector Tacsis Ceredigion 07/03/2022**

Cynhaliwyd y cyfarfod dros y we a'i gadeirio gan y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones.

Roedd y sawl a oedd yn bresennol yn cynnwys swyddogion o'r Tîm Trwyddedu, Pc Taylor (Dyfed-Powys), Nicola Parry (Priffyrdd, Eiddo a gweithiau) a deg cynrychiolydd o gwmnïau Tacsis. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys:

- Pennu prisiau siwrnai Hacni: Gofynnodd y rhai a oedd yn bresennol am gynyddu prisiau siwrnai cerbyd Hacni. Hysbyswyd y rhai a oedd yn bresennol y byddai

adroddiad yn cael ei baratoi a'i gyflwyno drwy'r broses ddemocrataidd i adolygu prisiau presennol y siwrneiau;

- Ymhlith yr anawsterau oedd yn ymwneud â safleoedd tacsis oedd diffyg toiledau i yrwyr ar ôl iddi nosi, prinder biniau sbwriel yn yr ardal a chwrteisi gyrwyr sy'n ceisio cael eu hurio ar y safle tacsis. Hysbyswyd gyrwyr na ddylent annog pobl i ddefnyddio’u cerbyd nhw tra bydd y cerbyd ar y safle.

- Hefyd tynnwyd sylw'r sawl oedd yn bresennol at y pryder ynghylch cerbydau yn yr unfan y tu allan i ysgolion gyda’r injan yn rhedeg, sy'n creu problem allyriadau llygredd. Mae'n broblem i bob cerbyd sy'n parcio y tu allan i'r ysgolion lleol yn Aberystwyth yn ystod amseroedd casglu, nid dim ond i dacsis.

- Roedd y materion cyffredinol eraill yn cynnwys y polisi tacsis newydd sydd ar ddod, systemau teledu cylch cyfyng mewn tacsis, anhrefn yn nhref Aberystwyth, ac ati.

Hysbyswyd y rhai oedd yn bresennol fod camau ar y gweill i symud y broses ymgeisio i dacsis i fod yn broses sydd ar-lein yn llwyr.  Pan gaiff ei gweithredu'n llawn, bydd ymgeiswyr yn gallu lanlwytho dogfennau a cheisiadau ar-lein gan symleiddio'r broses a’i gwneud yn fwy effeithlon.

**Adolygu Prisiau Siwrneiau Tacsis**

Mewn ymateb i'r cais a wnaed yng Nghyfarfod y Sector Tacsis i gynyddu prisiau siwrneiau Hacni, ac oherwydd yr argyfwng presennol ynghylch y cynnydd sydyn yng nghost tanwydd, cyflwynir adroddiad i'r Cabinet ar 5 Gorffennaf 2022 i argymell y dylid adolygu'r prisiau Hacni presennol ac yna ymgynghori arnynt.

Mae pennu prisiau tacsis yn swyddogaeth i’r Weithrediaeth ac mae proses bendant i'w dilyn a nodir yn Adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Os cyflwynir tariff newydd, bydd angen ail-raddnodi’r mesuryddion tâl mewn cerbydau hacni os bydd perchnogion y cerbydau yn dymuno gweithredu’r tariffau newydd – nid yw'r tariffau newydd yn orfodol. Bydd modd i ddeiliaid trwyddedau barhau i gynnig tariff is os ydynt yn dewis gwneud hynny. Bydd unrhyw Dariff diwygiedig yn gyfystyr â’r uchafswm y gellid ei godi am daith mewn cerbyd hacni.

**Deddf Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Pobl Anabl) 2022**

Bydd y Ddeddf hon yn dod i rym ar 28 Mehefin 2022 a bydd yn sicrhau fod pobl anabl yn gallu cael mynediad i wasanaethau trafnidiaeth, heb ofni cael eu gwahaniaethu neu wynebu taliadau ychwanegol. Bydd yn rhoi hawliau ac amddiffyniad penodol i 13.7 miliwn o bobl ledled Cymru, yr Alban a Lloegr fel y gallant deithio a theimlo'n hyderus y byddant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt wrth ddefnyddio gwasanaethau tacsi a cherbydau hurio preifat.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | Bod yr aelodau'n derbyn yr adroddiad er gwybodaeth. |
| **Rheswm am yr Argymhelliad:** | Rhoi gwybod i’r Aelodau am y gwaith a wnaed gan yr Adran Drwyddedu ers cyfarfod |

| | |
|---|---|
| | diwethaf y Pwyllgor a rhoi gwybod am y gwaith sydd ar y gweill. |
| **Fframwaith Polisi:** | Mae'r swyddogaethau statudol a gyflawnir gan y Tîm Trwyddedu yn elfen hanfodol o fframwaith polisi Diogelu'r Cyhoedd. |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | • Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl<br>• Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | O fewn y gyllideb |
| **Maes Gwasanaeth:** | Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Trwyddedu 2003; Deddf Gamblo 2005 ac unrhyw Reoliadau a wneir o dan y Deddfau hyn. |
| **Papurau Cefndirol:** | Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat: y Meini Prawf er mwyn i Yrwyr a Gweithredwyr fod yn gymwys. |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **Swyddog Adrodd:** | Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu) |
| **Dyddiad:** | 13 Mehefin 2022 |
| **Atodiadau:** | Atodiad A – Gwrandawiadau Tacsi a gynhaliwyd gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu |

**Atodiad A – Gwrandawiadau Tacsi a gynhaliwyd gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu**

| | |
|---|---|
| **Achos #1** | **Dyddiad y Gwrandawiad:** 14/03/2022 |
| **Yr Aelodau a oedd yn eistedd ar yr Is-bwyllgor Trwyddedu:** | Cyng. Alun Lloyd Jones (Cadeirydd), Cyng. Dan Potter, Cyng. Steve Davies |

**Crynodeb o’r Achos:**

Cafodd gyrrwr ei stopio gan yr heddlu wrth yrru cerbyd hurio preifat trwyddedig. Rhoddodd y gyrrwr ddarlleniad anadl o 100ug pan gafodd ei stopio gan yr heddlu, a'r terfyn cyfreithiol yw 35ug. Cafodd y gyrrwr ei arestio am y drosedd o yrru ar ôl yfed gormod o alcohol gan fod cyfran yr alcohol yn ei anadl yn uwch na'r terfyn cyfreithiol. Cafodd ei gyhuddo wedyn a'i farnu’n euog o’r drosedd. Cafodd y gyrrwr ei ddedfrydu a chafodd Orchymyn Cymunedol, £85 o gostau i’w talu, Gorchymyn i’w wahardd am 25 mis (a fydd yn cael ei leihau os bydd yn cwblhau cwrs), gorfod gweithio’n ddi-dâl, gorfod cyflawni gweithgaredd adsefydlu a thalu Tâl Dioddefwr o £95.

Roedd y gyrrwr wedi cael trwydded yrru ddeuol gan yr awdurdod ar 6 Mai 2022, a oedd i fod i ddod i ben ar 5 Mai 2024. Hysbyswyd yr Awdurdod Trwyddedu wedi hynny ei fod wedi’i wahardd rhag gyrru am 25 mis a’i fod wedi cael gorchymyn i gyflawni cosb gymunedol. Nid oedd y gyrrwr wedi rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am yr arestio a'r euogfarn ddilynol. Nid oedd y gyrrwr yn bresennol yn y gwrandawiad ond ymddiheurodd am beidio â bod yno.

**Rheswm am y Gwrandawiad:**

Mae ein hamodau'n nodi bod yn rhaid i yrwyr feddu ar drwydded yrru ddilys yn y Deyrnas Gyfunol er mwyn cael trwydded yrru ddeuol. Mae Adran 12.10 o Feini Prawf yr Awdurdod o ran cymhwystra yn nodi y bydd cais fel rheol yn cael ei wrthod, neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu, os yw’r ymgeisydd / deiliad y drwydded wedi ei farnu’n euog yn ddiweddar gan arwain at ei wahardd am gyfnod o 12 mis neu fwy, oni bai bod cyfnod o 24 mis o leiaf wedi mynd heibio ers diwedd cyfnod y gwaharddiad.

Mae adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded yrru os yw deiliad y drwydded wedi'i farnu’n euog o drosedd o dan ddarpariaethau Rhan II o'r Ddeddf, neu heb gydymffurfio â’r darpariaethau hyn; neu fod ymddygiad y gyrrwr yn ei wneud yn anaddas ym marn y Cyngor, neu fod newid perthnasol wedi bod yn amgylchiadau'r gweithredwr ers i'r drwydded gael ei rhoi gan effeithio ar y sail ar gyfer rhoi’r drwydded, neu unrhyw achos rhesymol arall.

**Canlyniad y Gwrandawiad:**

| |
|---|
| O ystyried y ffaith nad oedd gan y gyrrwr drwydded yrru mwyach, penderfynodd y Panel fod yn rhaid iddynt ddirymu'r drwydded gyrru tacsi ar unwaith.<br><br>Roedd y panel o'r farn fod yn rhaid i yrwyr tacsi ddangos gofal am y bobl maen nhw'n eu cario, ac er bod deiliad y drwydded yn gyrru cerbyd preifat pan gafodd ei stopio gan yr heddlu, mae gyrru dan ddylanwad yn drosedd ddifrifol iawn a adlewyrchir gan y ffaith fod y gyrrwr wedi'i wahardd rhag gyrru am 25 mis. Ni all y panel ganiatáu i rywun sydd heb drwydded yrru gael trwydded gyrru tacsi. |

| | |
|---|---|
| **Achos #2** | **Dyddiad y Gwrandawiad:** 14/03/2022 |
| **Yr Aelodau a oedd yn eistedd ar yr Is-bwyllgor Trwyddedu:** | Cyng. Alun Lloyd Jones (Cadeirydd), Cyng. Dan Potter, Cyng. Steve Davies |
| **Crynodeb o'r Achos:**<br>Derbyniodd yr Awdurdod Trwyddedu ddolen i erthygl papur newydd a oedd yn sôn am yrrwr trwyddedig a ymddangosodd gerbron Llys Ynadon Aberystwyth er mwyn penderfynu a ddylid dirymu ei drwydded DVLA ar ôl iddo gronni 14 o bwyntiau. Cafodd y gyrrwr ei ddal yn goryrru ar bedwar gwahanol achlysur rhwng Chwefror 2019 a Gorffennaf 2021. Un tro bu'n gyrru ar 45mya ar ffordd oedd â therfyn o 30mya. Ni chafodd trwydded y gyrrwr ei dirymu gan y Llys Ynadon ar ôl iddo hawlio y byddai mam oedrannus a cheffylau yn dioddef pe na bai'n gallu gyrru. | |
| **Rheswm am y Gwrandawiad:**<br>Mae meini prawf Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer cymhwystra gyrwyr, perchnogion a gweithredwyr cerbydau trwyddedig yn datgan y bydd gyrrwr sydd wedi cael mwy na chwe phwynt cosb yn cael ei gyfeirio i'r is-bwyllgor trwyddedu i weld a yw'n parhau i fod yn gymwys i ddal trwydded yrru ddeuol gyda'r Awdurdod hwn.<br><br>Rhaid i yrrwr trwyddedig roi gwybod i'r Awdurdod Lleol am unrhyw euogfarn, rhybudd neu gerydd y mae'n ei dderbyn, gan gynnwys pwyntiau cosb am yrru, a hynny o fewn 14 diwrnod. Yn achos dedfryd o garchar, rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol cyn gynted ag y bo modd yn rhesymol. Ni roddodd y gyrrwr wybod i'r Awdurdod am y ddwy euogfarn dyddiedig 27/06/21 a 23/07/21.<br><br>• 24/02/2019 – Gyrru'n rhy gyflym ar Ffordd Gyhoeddus – 3 phwynt<br>• 09/03/2019 – Gyrru'n rhy gyflym ar Drafffordd – 3 phwynt<br>• 27/06/2021 – Gyrru'n rhy gyflym ar Ffordd Gyhoeddus – 3 phwynt | |

| |
|---|
| • 23/07/2021 – Gyrru'n rhy gyflym ar Ffordd Gyhoeddus – Euogfarn mewn llys 12/11/2021 – 5 pwynt<br><br>Mae adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded yrru os yw deiliad y drwydded wedi'i farnu'n euog o drosedd o dan ddarpariaethau Rhan II o'r Ddeddf, neu heb gydymffurfio â'r darpariaethau hyn; neu fod ymddygiad y gyrrwr yn ei wneud yn anaddas ym marn y Cyngor, neu fod newid perthnasol wedi bod yn amgylchiadau'r gweithredwr ers i'r drwydded gael ei rhoi gan effeithio ar y sail ar gyfer rhoi'r drwydded, neu unrhyw achos rhesymol arall.<br><br>Mae meini prawf yr Awdurdod Lleol ar gyfer cymhwystra yn nodi y bydd yn rhoi sylw dyledus i bob euogfarn, a phan fo Llys Ynadon wedi penderfynu peidio â gwahardd person rhag gyrru bydd yr Awdurdod Lleol o'r farn fod y gwaharddiad wedi bod. |
| **Canlyniad y Gwrandawiad:**<br>Penderfynodd aelodau'r panel yn unfrydol i ddirymu'r Drwydded Yrru Ddeuol.<br><br>Ar ôl derbyn y llythyr am y penderfyniad, cysylltodd y gyrrwr â'r adran hon gan honni nad oedd yn gwybod am y gwrandawiad na chwaith am y gofyniad i roi gwybod i'r Awdurdod Lleol am unrhyw euogfarnau. Mae amodau'r gyrrwr yn nodi'n glir y gofyniad i ddatgan unrhyw euogfarnau. Mae'r gyrrwr wedi apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Lleol a bydd hyn yn cael ei glywed ar 8 Awst 2022. |

| **Achos #3** | **Dyddiad y Gwrandawiad:** 14/03/2022 |
|---|---|
| **Yr Aelodau a oedd yn eistedd ar yr Is-bwyllgor Trwyddedu:** | Cyng. Alun Lloyd Jones (Cadeirydd), Cyng. Dan Potter, Cyng. Steve Davies |
| **Crynodeb o'r Achos:**<br>Roedd y Gyrrwr wedi gwneud cais i adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol. Wrth adnewyddu, gwnaeth y gyrrwr ddatgan ei fod wedi derbyn 7 pwynt cosb ym mis Awst 2020 am yrru'n rhy gyflym. Deellir bod y gyrrwr wedi cael tri phwynt am yrru'n rhy gyflym a phedwar pwynt arall am fethu â mynd i'r gwrandawiad yn llys yr ynadon. | |
| **Rheswm am y Gwrandawiad:** | |

| |
|---|
| Mae meini prawf Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer cymhwystra gyrwyr, perchnogion a gweithredwyr cerbydau trwyddedig yn datgan y bydd gyrrwr sydd wedi cael mwy na chwe phwynt cosb yn cael ei gyfeirio i'r is-bwyllgor trwyddedu i weld a yw'n parhau i fod yn gymwys i ddal trwydded yrru ddeuol gyda'r Awdurdod hwn.<br><br>Mae adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded yrru os yw deiliad y drwydded wedi'i farnu'n euog o drosedd o dan ddarpariaethau Rhan II o'r Ddeddf, neu heb gydymffurfio â'r darpariaethau hyn; neu fod ymddygiad y gyrrwr yn ei wneud yn anaddas ym marn y Cyngor, neu fod newid perthnasol wedi bod yn amgylchiadau'r gweithredwr ers i'r drwydded gael ei rhoi gan effeithio ar y sail ar gyfer rhoi'r drwydded, neu unrhyw achos rhesymol arall. |
| **Canlyniad y Gwrandawiad:**<br>Yn ystod y gwrandawiad clywodd y panel mai'r rheswm fod y gyrrwr wedi derbyn 4 pwynt ychwanegol ar ei drwydded oedd bod y Llys heb gofrestru fod y gyrrwr wedi talu'r hysbysiad cosb. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd, pe bai'r gyrrwr wedi talu ar amser fel y dywedwyd, na fyddai'r drwydded DVLA wedi cael 7 pwynt cosb ac na fyddai rheswm i ddod â'r gyrrwr gerbron y panel am mai ond 3 phwynt fyddai ar y drwydded.<br><br>Penderfynwyd felly y dylai'r gyrrwr chwilio drwy ei gofnodion ariannol i gael tystiolaeth ei fod wedi talu'r gosb am y drosedd trafnidiaeth a darparu'r wybodaeth hon i'r Llys er mwyn i'r Llys benderfynu a yw'r euogfarn dal yn berthnasol. Os yw'r euogfarn dal yn berthnasol byddai angen aildrefnu'r gwrandawiad.<br><br>Cadwodd y Gyrrwr mewn cyswllt â'r Awdurdod Trwyddedu er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.<br><br>Yn ddiweddarach derbyniodd yr Awdurdod gopi o ohebiaeth oddi wrth y gyrrwr a oedd yn cadarnhau fod y Llys wedi tynnu yn ôl y drosedd dyddiedig 16/08/2020. Felly mae'r mater wedi dod i fwcwl ac nid oes angen camau pellach. |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgor Anstatudol) |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 14eg Gorffennaf 2022 |
| **Teitl:** | Amodau Newydd Trwydded Safleoedd Carafannau Gwyliau |
| **Diben yr adroddiad:** | I'r Aelodau ystyried cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo casgliad diwygiedig o amodau trwydded safonol ar gyfer Safleoedd Carafannau Gwyliau a chymeradwyo'r angen i ymgynghori â'r rheiny sydd â thrwydded safle ar hyn o bryd. |

**Cefndir**

Mae'r Tîm Trwyddedu yn gyfrifol am drefniadau trwyddedu i reoleiddio meysydd carafannau yng Ngheredigion. Mae meysydd carafannau a gwersylla wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y 40 mlynedd diwethaf, o ran gwneuthuriad carafannau a hefyd y mwynderau sydd ar gael ar y safleoedd hyn. Caiff meysydd carafannau eu rhannu yn dri chategori:

- Safleoedd preswyl,
- Safleoedd ar gyfer carafannau gwyliau sefydlog a
- Safleoedd ar gyfer carafannau gwyliau teithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn unig â safleoedd carafannau gwyliau a theithiol sy'n cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960. Mae deddfwriaeth a safonau model gwahanol, mwy modern ar gyfer safleoedd preswyl.

Yng Ngheredigion, mae tua 140 o safleoedd carafannau gwyliau a theithiol trwyddedig, a'r rheiny yn amrywio yn eu maint o fusnesau bychain i safleoedd busnes masnachol mwy o faint. Rhoddwyd llawer o'r trwyddedau hyn yn gyntaf yn y 1970au a'r 1980au, ac ers hynny bu newidiadau sylweddol yng ngwneuthuriad carafannau a'r mwynderau sydd ar gael ar safleoedd. Mae'r trwyddedau'n parhau'n fyw ac nid ydynt byth yn dod i ben ond yn aml yn cael eu trosglwyddo wrth i berchnogion newid drwy werthu neu drosglwyddo safleoedd neu ddeiliaid trwydded yn marw.

Mae'r amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau yn seiliedig ar safonau model sy'n dyddio'n ôl i 1983 a 1989, ni adolygwyd y safonau enghreifftiol hyn erioed nac ailymweld â nhw. Gweler Atodiad A (amodau presennol safle Carafannau Gwyliau Sefydlog) ac Atodiad B (amodau presennol safle Carafannau Gwyliau Teithiol).

Ystyrir bod angen moderneiddio'r amodau hyn ac fel rhan o Fforwm Trwyddedu'r Pedair Sir sy'n cynnwys swyddogion trwyddedu Sir Benfro, Powys, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, mae set ddiwygiedig o amodau trwydded safleoedd gwyliau a theithiol wedi'u drafftio. Mae'r amodau diwygiedig arfaethedig ynghlwm yn Atodiadau C a D.

Un o'r prif wahaniaethau nodedig rhwng y ddwy set o amodau yw dileu cyfeiriadau at amodau diogelwch tân yn sgil y gofyniad i gydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ("y Gorchymyn"). Yn wir, mae paragraff 43 o'r Gorchymyn yn nodi, pa bryd bynnag y bydd y Gorchymyn yn berthnasol i'r eiddo, nid fydd gan unrhyw derm, amod neu gyfyngiad a osodir gan yr awdurdod trwyddedu unrhyw rym fel y bo'n ymwneud ag unrhyw fater y mae gofynion neu waharddiadau wedi'u gosod gan y Gorchymyn hwn, neu y gellid eu gosod ganddo neu drwyddo. Mewn geiriau eraill, mae'r amodau diogelwch tân yn y Drwydded bresennol yn ddianghenraid gan fod yn rhaid i'r eiddo gydymffurfio â'r Gorchymyn.

Nid oes disgwyl i'r amodau diwygiedig roi unrhyw faich ychwanegol gormodol ar berchnogion safleoedd gan nad oes tystiolaeth o angen i godi'r safonau presennol; pwrpas yr amodau diwygiedig yw eu bod yn fwy cryno, wedi'u diweddaru ac yn gliriach i'w deall. Y bwriad yw y byddent yn gymwys yn ôl-weithredol i bob trwydded safle sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae Adran 8 o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 yn caniatáu i'r amodau sydd ynghlwm wrth drwydded safle gael eu newid ar unrhyw adeg, ond cyn arfer ei bwerau rhaid i'r awdurdod lleol roi cyfle i ddeiliad y drwydded wneud sylwadau.

Yn unol ag Adran 8 o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960, bydd angen i unrhyw amodau diwygiedig fynd trwy broses ymgynghori cyn y gellir eu mabwysiadu gan yr Awdurdod Trwyddedu. Hefyd, bydd angen ymgynghori â'r Awdurdod Tân er eu bod wedi bod yn rhan o ddrafftio'r amodau arfaethedig.

**<u>Ymgynghoriad</u>**

Os bydd y pwyllgor yn cymeradwyo'r amodau diwygiedig, bydd y Tîm Trwyddedu yn ymgynghori â'r rheiny sydd eisoes â thrwydded safle ac yn rhoi copi o'r amodau diwygiedig arfaethedig iddynt a chaniatáu cyfnod o 8 wythnos iddynt gyflwyno sylwadau.

Bydd unrhyw sylwadau perthnasol yn cael eu cyflwyno'n ôl i'r pwyllgor hwn i'w hystyried. Os na fydd unrhyw sylwadau i'w hystyried yna bydd y broses o roi'r amodau newydd ar waith yn dod i rym ar unwaith.

Ar ôl cwblhau'r broses hon, bydd yr amodau diwygiedig yn berthnasol i bob safle a bydd perchnogion safleoedd yn cael gwybod am y dyddiad maes o law, sy'n debygol o fod yn Hydref/Gaeaf 2022. Os bydd yn ofynnol i berchnogion safleoedd wneud unrhyw waith i fodloni'r safonau newydd, sydd ond yn debygol os nad ydynt yn bodloni'r safonau presennol, yna byddant yn cael amser rhesymol i gydymffurfio.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad (argymhellion):** | Yr Aelodau i ystyried cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo amodau trwydded safonol arfaethedig yn Atodiadau C a D a chymeradwyo'r angen i ymgynghori â'r fasnach berthnasol, sef deiliaid presennol trwyddedau safle fel rhan o broses ymgynghori 8 wythnos yn unol â Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960. |

| | |
|---|---|
| **Rhesymau dros yr argymhelliad/argymhellion:** | Mae'r amodau presennol dros 30 mlwydd oed ac yn sicr mae angen eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi digwydd yn sgil Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005<br><br>Maent yn welliant i'r amodau presennol gan eu bod yn fwy cryno, yn symlach ac yn egluro'r gofynion ar berchnogion safleoedd.<br><br>Maent wedi'u hystyried a'u drafftio gan aelodau Fforwm Trwyddedu'r Pedair Sir gyda mewnbwn gan yr Awdurdod Tân.<br><br>Byddant yn arwain y ffordd ar gyfer gweithredu'n gyson ar draws ardal Pedair Sir Dyfed-Powys. |
| **Fframwaith Polisi:** | Mae swyddogaethau statudol y Tîm Trwyddedu yn elfen sylfaenol o fframwaith polisi Diogelu'r Cyhoedd. |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol** | • Buddsoddi yn nyfodol y bobl<br>• Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol |
| **Y goblygiadau o ran cyllid a chaffael:** | O fewn y gyllideb |
| **Maes Gwasanaeth** | Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 |
| **Papurau Cefndir** | Dim |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Alun Williams (Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd) |
| **Swyddog Adrodd:** | Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu) |
| **Dyddiad:** | 13 Mehefin 2022 |
| **Atodiadau:** | Atodiad A – Amodau Presennol ar gyfer Safleoedd Carafannau Sefydlog<br>Atodiad B – Amodau Presennol ar gyfer Carafannau Teithio<br>Atodiad C – Amodau Arfaethedig Carafannau Gwyliau Sefydlog<br>Atodiad D – Amodau Arfaethedig Carafannau Gwyliau Teithiol |

**Atodiad A – Amodau Presennol ar gyfer Safleoedd Carafannau Sefydlog**

**Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960**
**Amodau Presennol ar gyfer Safleoedd Carafannau Sefydlog**

| | **Amod** |
|---|---|
| 1 | Ni chaiff cyfanswm nifer y carafannau y gellir eu gosod ar y safle fod yn fwy na xxxx o garafannau sefydlog. |
| | **Ffiniau'r Safle** |
| 2 | Rhaid dangos yn glir ble mae ffiniau'r safle, er enghraifft drwy ffens neu wrych. Yn ogystal, dylai perchennog y safle roi cynllun o drefn a gosodiad y safle i'r awdurdod lleol. Argymhellir cadw ardal 3 metr o led yn glir y tu mewn i bob ffin. |
| | **Cynllun a Threfn y Safle** |
| 3 | Rhaid i'r safle fod wedi'i osod yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd. Rhaid i gynlluniau, a'r adeiladu, ar bob adeilad ar y safle sy'n cynnwys atodion megis blociau toiledau, baddonau, golchdai, siopau, ac ati, gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Adeiladu. |
| 4 | Dylid dangos yn glir y safleoedd unigol ar y safle, a'u cadw felly. |
| | **Deiliadaeth Dymhorol** |
| 5 | Dim ond ar gyfer y cyfnod a ganiateir gan y caniatâd Cynllunio presennol y ceir defnyddio'r carafannau ar y safle. Ni chaniateir i garafannau gwyliau sefydlog gael eu meddiannu am gyfnod di-dor o ddeuddeg mis mewn unrhyw flwyddyn o dan unrhyw amgylchiadau. |
| | **Dwysedd a'r Gofod rhwng Carafannau** |
| 6 | Rhaid i'r pellter rhwng carafannau a wneir o alwminiwm neu o ddeunydd arall sydd â nodweddion perfformio tân tebyg fod yn ddim llai na 5m rhwng unedau, 3.5m ar y corneli. (Gweler enghraifft o gynllun yn Atodiad 1). Ar gyfer y rheini sydd wedi'u gwneud o bren haenog neu debyg ni chaiff fod yn llai na 6m. Pan fo cymysgedd o garafannau gwyliau alwminiwm a phren haenog, rhaid i'r pellter rhyngddynt fod yn 6m; a phan fo cymysgedd o gartrefi preswyl parhaol a charafannau gwyliau, rhaid i'r pellter rhyngddynt eto fod yn 6m. |
| 7 | Gall cynteddau ymwthio allan 1m i mewn i'r 5m a dylent fod o fath agored. |
| 8 | Pan ddefnyddir adlenni, ni ddylai'r pellter rhwng unrhyw ran o'r adlen a charafán gyfagos fod yn llai na 3m. Ni chânt fod o'r math sy'n cynnwys lleoedd cysgu, ac ni chânt wynebu ei gilydd na chyffwrdd ei gilydd. |
| 9 | Caiff bondoeau, peipiau glaw a ffenestri crwm ymestyn i mewn i'r gwagle 5m cyhyd â bod cyfanswm y pellter rhwng pennau pellaf y ddwy uned gyfagos yn fwy na 4.5m. |
| 10 | Pan geir rampiau i'r anabl, ferandas a grisiau yn ymestyn o'r uned, rhaid cael gofod clir o 3.5m rhyngddynt (4.5m os oes cymysgedd o garafannau) ac ni chaiff eitemau o'r fath wynebu ei gilydd mewn unrhyw leoliad. Os ydynt yn gaeedig, efallai y bydd angen eu hystyried yn rhan o'r uned ac, felly, ni ddylent ymestyn i mewn i'r ardal 5m (neu 6m). |
| 11 | Caniateir garej, sied neu ardal storio dan do rhwng unedau ar yr amod eu bod o wneuthuriad nad yw'n llosgadwy (gan gynnwys to nad yw'n llosgadwy), a bod lle digonol o amgylch pob uned er mwyn sicrhau nad oes rhwystrau ar draws llwybrau dianc pe bai tân. Ni chaniateir i ffenestri mewn adeileddau o'r fath wynebu'r unedau bob ochr iddynt. Ni chaniateir, dan unrhyw amgylchiadau, gael cysgodfeydd ceir a rhodfeydd dan do yn yr ardal |

| | |
|---|---|
| | 5m neu 6m. O ran cael ceir a chychod rhwng yr unedau, gweler cyfeiriad ar hyn mewn man arall yn y ddogfen hon. |
| 12 | Dylai'r dwysedd fod yn gyson â safonau diogelwch a gofynion iechyd ac amwynder. Ni chaiff y dwysedd gros fod yn fwy na 60 carafán yr hectar, a gyfrifir ar sail yr ardal y gellir ei defnyddio (h.y. ac eithrio llynnoedd, ffyrdd, gwasanaethau cymunedol ac ardaloedd eraill sy'n anaddas ar gyfer gosod carafannau) yn hytrach nag arwynebedd y safle cyfan. |
| | **Ffyrdd, Mynedfeydd a Llwybrau Traed** |
| 13 | Rhaid cynllunio'r ffyrdd a'r llwybrau troed i roi digon o le i beiriannau tân. |
| 14 | Rhaid sicrhau ffyrdd o ddeunydd addas i sicrhau nad oes unrhyw garafán wedi'i gosod fwy na 50m o'r ffordd. |
| 15 | Os yw'r dull cyrraedd y garafán ar draws tir a allai fod yn anodd neu'n beryglus ei groesi mewn tywydd gwlyb, rhaid i bob safle carafán gael ei gysylltu â lôn gerbyd drwy lwybr troed sydd â wyneb caled. |
| 16 | Ni chaiff y ffyrdd fod yn llai na 3.7m o ran lled, neu 3m o led os ydynt yn ffurfio rhan o system draffig unffordd sydd wedi'i dynodi'n glir. |
| 17 | Ni chaiff mynedfeydd fod yn llai na 3.1m o ran lled na 3.7m o ran uchder. |
| 18 | Ni chaiff y llwybrau troed fod yn llai na 0.75m o ran lled. |
| 19 | Ni ddylai ffyrdd gael ceblau uwchben sy'n is na 4.5m uwchben y tir. |
| 20 | Rhaid goleuo'r ffyrdd a'r llwybrau troed yn addas gan roi ystyriaeth i nodweddion ac anghenion y safle penodol hwnnw. |
| 21 | Rhaid cadw ffyrdd o fewn y safle yn glir o rwystrau ar bob adeg ar gyfer cerbydau argyfwng a rhaid sicrhau bod dŵr wyneb yn cael ei waredu'n briodol. |
| | **Arwyneb solet** |
| 22 | Lle bo'n bosibl, rhaid i bob carafán sefyll ar lawr caled o ddeunydd addas. Rhaid i'r llawr hwn ymestyn ar draws yr ardal gyfan a feddiannir gan y garafán, ac mae'n rhaid iddo ymestyn tuag allan yn ddigonol o fynedfeydd y garafán i alluogi deiliaid i fynd i mewn ac allan yn ddiogel. |
| | **Cyfarpar Ymladd Tân** |
| | **Mannau Tân** |
| 23 | Rhaid lleoli'r rhain fel nad yw'r un garafán nac adeilad safle yn fwy na 30 metr i ffwrdd o flwch/man tân. |
| 24 | Rhaid i'r cyfarpar fod mewn strwythur gwrth-dywydd, yn hawdd cael ato ac wedi'i farcio'n glir ac yn amlwg â'r geiriau "MAN TÂN-FIRE POINT". |
| 25 | Bydd mannau/blychau tân fel y rhain yn cael eu goleuo i safon uchel yn ystod cyfnodau o dywyllwch. |
| | **Cyfarpar Ymladd Tân** |
| 26 | Os oes safbibellau dŵr ac os oes digon o bwysedd a llif yn y cyflenwad dŵr i daflu ffrwd o ddŵr o leiaf 5 metr o'r ffroenell, yna dylid gosod y safbibellau dŵr hyn wrth bob man tân. Rhaid bod rîl sy'n cydymffurfio â Safon Brydeinig 5306 Rhan 1, a phibell o leiaf 30 metr o hyd, y mae modd eu cysylltu â safbibell ddŵr (cysylltiad edau sgriw sydd orau) gyda chyflenwad dŵr o bwysedd digonol ac sy'n terfynu mewn ffroenell law fechan. Rhaid i bibellau gael eu cadw mewn blwch coch sydd wedi'i farcio â'r geiriau "OLWYN PIBEN TÂN-HOSE REEL". |
| 27 | Pan nad oes safbibellau dŵr ond bod digon o bwysedd a llif yn y cyflenwad dŵr, rhaid gosod hydrantau tân o fewn 100 medr i bob safle carafán. Rhaid i |

| | |
|---|---|
| | hydrantau gydymffurfio â Safon Brydeinig 750. Rhaid sicrhau nad yw'r mynediad i hydrantau a chyflenwadau dŵr eraill yn cael ei rwystro na'i guddio. |
| 28 | Pan nad oes safbibellau dŵr a phan nad oes digon o bwysedd a llif dŵr, rhaid i bob man tân gael naill ai diffoddwyr dŵr (2 x 9 litr) neu danc dŵr sy'n dal o leiaf 500 litr ac iddo gaead â cholfachau, 2 fwced ac 1 pwmp llaw neu bwmp bwced. |
| | **Cyfarpar Ymladd Tân yn y Carafannau** |
| 29 | Rhaid i bob carafán gael diffoddydd bach powdr sych amlbwrpas sydd â chapasiti o 1.5 Kg ac yn cydymffurfio â B.S.S. 5423. Rhaid gosod a chynnal diffoddwyr o'r fath yn unol â B.S.S. 5306 (Rhan 111). |
| 30 | Yn ogystal, rhaid i bob carafán gael blanced dân o wneuthuriad cymeradwy ac o faint digonol, a rhaid gosod a chadw blanced o'r fath wrth ymyl offer coginio bwyd. |
| | **Rhybuddio am dân** |
| 31 | Rhaid rhoi dull i rybuddio am dân ym mhob man tân. Gallai hyn fod drwy gyfrwng seinydd a weithredir â llaw, e.e. triongl metel a rhywbeth i'w daro, cloch neu seiren law. |
| | **Cynnal a Chadw** |
| 32 | Bydd i'r holl offer diffodd tân a phob larwm gael eu gosod, eu profi a'u cynnal mewn cyflwr gweithio gan berson cymwys a rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio gan, neu ar ran, yr awdurdod trwyddedu. Cedwir llyfr log i gofnodi pob prawf ac unrhyw gamau adfer. |
| 33 | Os gallai rhew ddifrodi'r offer ymladd tân, yna dylid ei ddiogelu'n briodol. |
| | **Hysbysiadau Tân** |
| 34 | Ymhob blwch cyfarpar tân dylid arddangos hysbysiad ysgrifenedig amlwg yn dweud beth i'w wneud pe ceid tân, ynghyd â dangos lleoliad y ffôn agosaf. Dylai'r rhybudd gynnwys yr isod:-<br>"Os ydych yn canfod tân:<br>Sicrhewch fod pawb yn gadael y garafán neu'r adeilad sydd ar dân<br>Canwch y larwm<br>Galwch y Frigâd Dân (mae'r ffôn agosaf yn ..................................................)<br>Os yw'n ddiogel gwneud hynny, diffoddwch y tân drwy ddefnyddio'r offer tân a ddarparwyd.<br>Er lles holl feddianwyr y safle hwn, dylai pawb fod yn gyfarwydd â'r drefn uchod a sut i weithredu'r offer diffodd tân." |
| | **Peryglon Tân** |
| 35 | Rhaid torri glaswellt a llystyfiant yn aml ac yn rheolaidd lle bo angen i'w atal rhag dod yn berygl tân i garafannau, adeiladau neu osodiadau eraill ar y safle. |
| 36 | Rhaid symud unrhyw doriadau o'r fath o gyffiniau'r carafannau. |
| 37 | Nid yw'r gofod o dan carafannau a rhyngddynt i'w defnyddio ar gyfer storio deunyddiau llosgadwy. |
| 38 | Pan fo peryglon o lystyfiant yn bodoli, dylid darparu cyfarpar curo priodol, fel y math a ddefnyddir gan y Comisiwn Goedwigaeth, wrth bob man tân. |
| | **Ffôn** |
| 39 | Bydd ffôn sy'n rhwydd ei chyrraedd ar gael ar y safle ar gyfer galw'r gwasanaethau brys. |
| 40 | Bydd hysbysiad yn ymyl y ffôn yn cynnwys cyfeiriad y safle. |
| | **Storio Nwy Petrolewm Hylifedig (LPG)** |

| | |
|---|---|
| 41 | Wrth storio LPG a gyflenwir gan danciau rhaid cydymffurfio â'r argymhellion a gelir yng nghyhoeddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), sef Llyfryn Canllaw HSG 34 "The Storage of LPG at Fixed Installations" neu, os cyflenwir LPG o silindrau, rhaid cydymffurfio â Llyfryn Canllaw CS4 "The Keeping of LPG in Cylinders and Similar Containers" fel y bo'n briodol. Gellir cael gafael ar ganllawiau'r HSE yn uniongyrchol o'r HSE neu yn HMSO. |
| 42 | Pan fo cyflenwadau â mesurydd yn dod o danc storio LPG a rennir, ceir canllawiau pellach yn Llyfryn Canllaw 11 "The Storage and Use of LPG at Metered Estates". Yn yr achos hwn a phan fo prif gyflenwad Nwy Prydain ar gael, yna gall Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1984 a Deddf Piblinellau 1962 hefyd fod yn berthnasol. |
| 43 | Ni ddylid gosod poteli neu silindrau nwy agored yn y bwlch sy'n ffinio â'r uned gyfagos. |
| 44 | Rhaid i osodiadau LPG gydymffurfio â Safon Brydeinig 5482, "Cod Ymarfer ar gyfer llosgi nwy biwtan a phropan domestig, gosodiadau, Rhan 2: 1977 Gosodiadau mewn Carafannau ac anheddau nad ydynt yn rhai parhaol". |
| 45 | O ran nwy o'r prif gyflenwad, bydd Rheoliadau 1984 yn berthnasol ar gyfer gosod unrhyw bibell(au) gwasanaeth sy'n cyflenwi unrhyw brif fesurydd(ion) ac mae pibellau gwasanaeth o'r fath yn ddarostyngedig i Reoliadau Diogelwch Nwy 1972. |
| | **Gosodiadau Trydanol** |
| 46 | Rhaid i safleoedd gael cyflenwad trydan digonol ym mhob agwedd i fodloni gofynion rhesymol y carafannau sydd ar y safleoedd. |
| 47 | Rhaid i osodiadau trydan o'r fath, heblaw am waith a chylchedau'r Bwrdd Trydan sy'n amodol ar reoliadau a wnaethpwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan Adran 16 o Ddeddf Ynni 1983 ac Adran 64 o Ddeddf Drydan 1947, gael eu gosod, eu profi a'u cynnal yn unol â darpariaethau Rheoliadau Sefydliad y Peirianwyr Trydanol (IEE) ar gyfer Gosodiadau Trydanol a fydd mewn grym ar y pryd, a phan fo'n briodol, i'r safon a fyddai'n dderbyniol at ddibenion Rheoliadau Trydan 1988 (llinellau uwchben), Offerynnau Statudol 1988 Rhif 1057. |
| 48 | Rhaid i'r gwaith ar osodiadau ac offer trydan gael ei wneud gan bersonau cymwys yn unig, megis asiant penodedig y gwneuthurwr, y cyflenwr trydan, peiriannydd trydanol proffesiynol cymwysedig, aelod o Gymdeithas y Contractwyr Trydanol, contractwr a gymeradwywyd gan y Cyngor Archwilio Cenedlaethol ar gyfer Contractio Gosodiadau Trydanol, neu berson cymwys yn gweithredu ar ran un o'r uchod. Rhaid archwilio'r gosodiadau bob blwyddyn neu gyfnod hirach (heb fod yn fwy na 3 blynedd) fel yr ystyrir yn briodol ym mhob achos. Pan archwilir gosodiad, caiff ei farnu yn erbyn y rheoliadau cyfredol. |
| 49 | Bydd yr archwiliwr, ymhen 1 mis ar ôl arolwg o'r fath, yn rhoi tystysgrif archwilio ar y ffurf a nodir yn Rheoliadau Gwifrio IEE. Bydd y dystysgrif yn cael ei chadw gan weithredwr y safle gyda thrwydded y safle, gan ei harddangos, ei hatodi neu'i hadnewyddu gan dystysgrifau dilynol. Bydd gweithredwr y safle neu ddeiliad y drwydded yn talu am gost yr archwiliad. |
| 50 | Os yw archwiliad yn dangos nad yw gosodiad bellach yn cydymffurfio â'r rheoliadau a oedd yn bodoli pan gafodd ei osod yn y lle cyntaf, bydd rhaid cywiro unrhyw ddiffygion. Bydd unrhyw newidiadau ac estyniadau mawr i osodiad a holl rannau'r gosodiad presennol yr effeithir arnynt yn cydymffurfio â fersiwn diweddaraf Rheoliadau Gwifrio IEE. |

| | |
|---|---|
| 51 | Os oes llinellau trydan uwchben y safle, rhaid arddangos hysbysiadau rhybuddio wrth fynedfa'r safle ac ar byst y llinellau. Lle bo'n briodol, dylai'r rhain yn benodol rybuddio rhag y peryglon pe bai'r llinellau yn dod i gysylltiad â mastiau dingis a chychod hwylio. |
| | **Cyflenwad Dŵr** |
| 52 | Rhaid darparu a chynnal cyflenwad digonol o ddŵr dihalog sy'n cydymffurfio â Chyfarwyddeb 80/77SEEC/ yn ymwneud ag Ansawdd y Dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl. |
| 53 | Pan nad oes cyflenwad unigol o ddŵr i garafannau, rhaid darparu safbibellau o fewn 50 metr i bob llain carafán. |
| | **Draeniad, Hylendid a Chyfleusterau Ymolchi** |
| 54 | Rhaid bod darpariaeth foddhaol ar gyfer draenio dŵr brwnt naill ai trwy gyswllt â charthffos gyhoeddus neu waith trin carthffosiaeth neu drwy ei ryddhau i danc septig sydd wedi'i adeiladu'n gywir neu garthbwll sydd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol. |
| 55 | Rhaid darparu mannau gwaredu wedi'u cynllunio'n briodol ar gyfer cynnwys toiledau cemegol, gyda digon o ddŵr yn cael ei gyflenwi ar gyfer glanhau'r cynwysyddion a hysbysiad amlwg fod y dŵr i'w ddefnyddio at y diben hwnnw'n unig. |
| 56 | Pan nad oes cyflenwad unigol o ddŵr i garafannau, rhaid darparu safbibellau o fewn 50 metr i bob llain carafán. |
| 57 | Ar gyfer carafannau heb eu cyflenwad dŵr eu hunain na thoiledau â dŵr, rhaid darparu blociau toiledau cymunedol, ac ynddynt gyflenwadau digonol o ddŵr, a hynny ar y niferoedd canlynol ar y lleiaf:<br>Dynion: 1 tolied ac 1 cafn ar gyfer pob 15 carafán.<br>Menywod: 2 doiled ar gyfer pob 15 carafán.<br>1 basn ymolchi ar gyfer pob tolied neu grŵp o doiledau.<br>1 cawod neu fath (gyda dŵr oer a phoeth) i bob rhyw ar gyfer pob 20 carafán.<br><br>Rhaid lleoli blociau toiledau yn gyfleus fel y gall holl ddeiliaid y safle gael mynediad rhesymol i un ar hyd ffordd neu lwybr troed.<br>Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i anghenion pobl anabl yn y ddarpariaeth a wneir ar gyfer mannau dŵr, toiledau, mannau ymolchi a chawodydd.<br>Dylid darparu cyfleusterau golchi dillad mewn ystafell ar wahân ar raddfa o ddim llai nag un sinc dwfn yn rhedeg dŵr poeth ac oer ar gyfer pob 30 carafán. Rhaid i unrhyw offer mecanyddol a osodir yn y golchdy at ddefnydd cyffredinol gael ei gynnal a'i gadw'n briodol gan ddeiliad trwydded y safle. |
| 58 | Bydd yr holl gyfleusterau hyn yn cael eu cynnal yn briodol a'u cadw'n gwbl lân, gan eu hawyru a'u goleuo'n ddigonol bob amser. |
| | **Gwaredu Sbwriel** |
| 59 | Bydd gan bob carafán nifer digonol o finiau sbwriel addas nad ydynt yn llosgadwy, gan fod â chaeadau tynn neu fagiau plastig. Gwneir trefniadau i wagio'r biniau'n rheolaidd. Pan ddarperir biniau cymunedol hefyd, bydd y rhain o adeiladwaith tebyg ac yn cael eu cadw mewn storfa finiau wedi'i hadeiladu'n briodol. |
| | **Parcio** |
| 60 | Un car yn unig y gellir ei barcio rhwng carafannau cyfagos cyhyd ag nad yw drws y garafán yn cael ei rwystro. |

| | |
|---|---|
| 61 | Rhaid darparu mannau parcio a chanddynt arwyneb addas yn ôl yr angen, i fodloni gofynion ychwanegol y deiliaid a'u hymwelwyr. |
| 62 | Ni chaniateir parcio cychod plastig na rhai pren rhwng unedau. |
| | **Mannau Hamdden** |
| 63 | Rhaid pennu lle addas sy'n cyfateb i ryw ddegfed ran o gyfanswm arwyneb y safle ar gyfer gêmau plant a dibenion hamdden eraill. |
| 64 | Dylid rhoi ystyriaeth ddwys i ddarparu ardal benodol ar gyfer ymarfer anifeiliaid anwes, ardal sydd i ffwrdd o ardal y plant sydd wedi'i ddiogelu'n briodol. Rhaid cadw cŵn ar dennyn bob amser pan nad ydynt yn y carafannau. |
| | **Hysbysiadau** |
| 65 | Rhaid cael arwydd amlwg a phriodol wrth y fynedfa yn nodi enw'r safle. |
| 66 | Rhaid arddangos copi o drwydded y safle a'i hamodau, mewn lleoliad amlwg ar y safle. |
| 67 | Rhaid arddangos hysbysiadau a chynllun ar y safle yn nodi beth i'w wneud petai argyfwng. Byddant yn dangos sut y gellir cysylltu â'r heddlu, y frigâd dân, yr ambiwlans a meddygon lleol, a lleoliad y ffôn cyhoeddus agosaf. |
| 68 | Rhaid i'r hysbysiadau hefyd roi enw a lleoliad/rhif ffôn deiliad trwydded y safle neu ei gynrychiolydd achrededig. |
| 69 | Ar safleoedd sydd mewn perygl o lifogydd, mae'n rhaid arddangos hysbysiadau rhybudd yn rhoi cyngor ynghylch gweithredu'r system rhybuddio rhag llifogydd. |
| 70 | Rhaid i bob hysbysiad gael ei ddiogelu'n briodol rhag y tywydd a'u harddangos lle bo'n bosibl i ffwrdd rhag golau haul uniongyrchol, yn ddelfrydol mewn ardaloedd sydd â golau artiffisial. |
| 71 | Rhaid i weithredwr y safle gadw cofrestr o bawb sy'n aros ar y safle ar sail wirfoddol. |
| 72 | Bydd gweithredwr y safle yn gyfrifol am y safle mewn modd sy'n sicrhau nad yw'r canlynol yn ennyn cwynion gan drigolion y safle a chan eiddo cyfagos i'r safle: gormod o sŵn o adloniant a drefnwyd; arogleuon coginio o'r barbeciws ac ati. |

**Atodiad B – Amodau Presennol ar gyfer Carafannau Teithio**

**Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960**
**Amodau Presennol ar gyfer Carafannau Teithio**

| | **Amodau** |
|---|---|
| 1 | Ni chaiff cyfanswm nifer y carafannau ar y safle fod yn fwy na xxxxx o garafannau teithio. |
| 2 | Ni chaniateir i unrhyw garafán deithiol aros ar y safle rhwng y cyfnod xxxx a xxxx mewn unrhyw flwyddyn. |
| | **Y bwlch rhwng carafannau** |
| 3 | Dan unrhyw amgylchiadau, ni ddylai uned fod yn agosach na 6m oddi wrth unrhyw uned arall a feddiannir gan deulu ar wahân ac ni ddylai fod dim llai na 3m rhwng yr unedau. “Argymhellir cadw bwlch 3 metr o led yn glir y tu mewn i bob ffin.” |
| 4 | Rhaid i’r pellter rhwng carafannau a wneir o alwminiwm neu o ddeunydd arall â nodweddion perfformio tân tebyg fod yn ddim llai na 5m rhwng unedau, 3.5m ar y corneli. Ar gyfer y rheini sydd wedi’u gwneud o bren haenog neu debyg ni chaiff fod yn llai na 6m. |
| 5 | Caniateir cerbydau ac unrhyw offer ategol yn y gwagle 6m rhwng yr unedau a feddiannir gan deuluoedd ar wahân ond, er mwyn atal tân rhag lledu, rhaid bob amser cael gofod 3m pendant o fewn y bwlch 6m. |
| 6 | Dylai cerbydau brys allu sicrhau mynediad bob amser o fewn 90 metr i unrhyw uned ar y safle. |
| | **Cyflenwi Dŵr Yfed a Gwaredu Dŵr Gwastraff** |
| 7 | Dylai fod cyflenwad digonol o ddŵr yfed. Dylai pob llain ar safle fod o fewn 90 metr i dap dŵr. Ar bob tap dylid cael suddfan dŵr neu gwter. |
| 8 | Dylid darparu mannau i waredu dŵr gwastraff mewn modd sy’n sicrhau bod pob llain o fewn 90 metr i fan gwaredu dŵr gwastraff. Dylid ymgynghori â’r Awdurdod Dŵr priodol ynghylch y trefniadau ar gyfer gwaredu dŵr sy’n debygol o fod wedi’i halogi. |
| | **Toiledau** |
| 9 | Dylai’r ddarpariaeth fod yn 1 toiled ac 1 cafn i ddynion a 2 doiled i ferched ar gyfer pob 30 llain a dylai’r awdurdod trwyddedig fod yn fodlon â lleoliad y toiledau hyn. |
| | **Man gwaredu ar gyfer toiledau Cemegol** |
| 10 | Hyd yn oed os darperir toiledau, dylid darparu arllwysfan bwrpasol ar gyfer gwagio toiledau cemegol gyda chyflenwad digonol o ddŵr i lanhau’r cynwysyddion. Dylid ystyried y dull gwaredu yn ôl yr amgylchiadau penodol a dylai’r awdurdod lleol a’r Awdurdod Dŵr priodol fod yn fodlon â’r dulliau. Lle bo’n berthnasol, dylai’r cyflenwad dŵr gael ei farcio’n glir fel dŵr na ellir ei yfed. |
| | **Mannau Golchi** |
| 11 | Dylid darparu o leiaf 4 basn ymolchi sydd â dŵr ar gyfer pob 30 uned: sef 2 yr un ar gyfer dynion a merched. Dylent fod wrth ymyl y toiledau. |
| | **Dŵr Poeth: Cawodydd** |
| 12 | Dylid darparu cawodydd ar sail 1 cawod am bob 25 llain a dylai dŵr poeth fod ar gael. |
| | **Pobl Anabl** |

| | |
|---|---|
| 13 | Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i anghenion yr anabl yn y ddarpariaeth a wneir ar gyfer mannau dŵr, toiledau, mannau golchi a chawodydd. |
| | **Gosodiadau trydan** |
| 14 | Rhaid i safleoedd gael cyflenwad trydan digonol i fodloni holl ofynion rhesymol y carafannau sydd ar y safleoedd. |
| 15 | Rhaid i osodiadau trydan o'r fath, heblaw am waith a chylchedau'r Bwrdd Trydan sy'n amodol ar reoliadau a wnaethpwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan Adran 16 o Ddeddf Ynni 1983 ac Adran 64 o Ddeddf Drydan 1947, gael eu gosod, eu profi a'u cynnal yn unol â Safon Brydeinig 7671. |
| 16 | Rhaid i'r gwaith ar osodiadau ac offer trydan gael ei wneud gan gontractwr a gymeradwywyd gan y NICEIC (Cyngor Archwilio Cenedlaethol ar gyfer Contractio Gosodiadau Trydanol). |
| 17 | Rhaid i'r gosodiadau gael eu profi a'u harchwilio'n flynyddol i sicrhau cydymffurfio â BS 7671, a rhaid rhoi Tystysgrif Gosodiad Trydanol NICEIC i weithredwr y safle ymhen 1 mis i'r archwiliad o'r gosodiad er mwyn cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â BS 7671. |
| 18 | Rhaid i weithredwr y safle gadw'r Dystysgrif Gosodiad Trydanol NICEIC a'i harddangos (gan ei hatodi neu ei hadnewyddu gan dystysgrifau dilynol) gyda thrwydded y safle. |
| 19 | Gweithredwr y safle neu ddeiliad y drwydded fydd yn talu cost yr archwiliad a'r adroddiad. |
| 20 | Os bydd archwiliad yn datgelu nad yw gosodiad bellach yn cydymffurfio â BS 7671, rhaid cywiro unrhyw ddiffygion. |
| 21 | Dylai unrhyw newidiadau ac estyniadau mawr i osodiad a phob rhan o'r gosodiad presennol yr effeithir arno gan hyn gydymffurfio â BS 7671. |
| | **Gwaredu Sbwriel** |
| 22 | Rhaid gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer storio, casglu a gwaredu sbwriel. (Disgwylir fel rheol y dylai gweithredwyr safleoedd gyflawni eu cyfrifoldebau yn hyn o beth drwy wneud trefniadau gyda'r awdurdod lleol.) |
| | **Rhagofalon Tân** |
| 23 | Ni ddylai unrhyw uned fod yn bellach na 90 metr o flwch/man tân. Ym mhob blwch tân dylid cael dau ddiffoddydd dŵr (wedi'i allyrru gan nwy) a phob un o'r ddau â chapasiti 10 litr ac yn cydymffurfio â Safon Brydeinig 5423: 1980, ynghyd â dull o ddweud wrth bawb fod tân (e.e. larwm llaw, cloch neu seiren law). Os bydd posibilrwydd y gall rhew ddifrodi'r offer ymladd tân, yna dylid eu diogelu'n briodol. |
| 24 | Os bydd unrhyw debygolrwydd y gallai tân ledu oherwydd tyfiant planhigion, dylid sicrhau bod cyfarpar curo priodol, fel y math a ddefnyddir gan y Comisiwn Goedwigaeth, a'u cadw wrth bob blwch offer tân. |
| 25 | Dylai pob blwch offer tân fod yn hawdd mynd ato ac wedi'i farcio'n glir. Dylid sicrhau fod offer ymladd tân yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn barod i'w ddefnyddio ac ar gael i'w archwilio gan yr awdurdod trwyddedu. |
| 26 | Ym mhob blwch offer tân, dylid arddangos rhybudd amlwg yn dangos sut i ddefnyddio'r offer pe ceid tân, ynghyd â dangos lleoliad y ffôn agosaf.<br>Dylai'r rhybudd gynnwys y manylion isod:-<br>Os ydych yn canfod tân:<br>a. Canwch y larwm<br>b. Sicrhewch fod pawb yn gadael yr uned sydd ar dân<br>c. Galwch ar y Frigâd Dân (mae'r ffôn agosaf yn ......................................................) |

| | |
|---|---|
| | d. Os yw’n ddiogel gwneud hynny, diffoddwch y tân drwy ddefnyddio’r offer tân a ddarparwyd. |

**Atodiad C – Amodau Arfaethedig Carafannau Gwyliau Sefydlog**

Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960
**Amodau Arfaethedig Carafannau Gwyliau Sefydlog**

**GOFYNION STATUDOL A RHEOLEIDDIOL AR BERCHNOGION SAFLE**
Yn ogystal â’r amodau a osodir gan y drwydded safle hon, mae meysydd eraill lle mae angen i safle fodloni gofynion statudol deddfwriaeth fwy penodol. Cyfrifoldeb perchennog y safle yw cydymffurfio neu roi sylw i unrhyw ofynion, rheoliadau a chodau ymarfer statudol sy’n berthnasol ar unrhyw adeg. Nid yw’r rhestr ganlynol yn hollgynhwysfawr, ond fe’i rhestrir fel arweiniad. Mae deddfwriaeth a chanllawiau’n cael eu diweddaru’n rheolaidd, a bydd angen i berchennog y safle sicrhau ei fod yn defnyddio’r ddeddfwriaeth/canllawiau diweddaraf.

**Iechyd a Diogelwch**
Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974

**Diogelwch Tân**
Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

**Diogelwch Trydanol**
Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989

**Diogelwch Nwy**
Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998

**Safleoedd Carafannau a Chartrefi Symudol**
Deddf Cartrefi Symudol 1983
Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013
Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960
Deddf Safleoedd Carafannau 1968

Diffiniad o garafán:
***“…unrhyw strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo ac sy’n gallu cael ei symud o’r naill le i’r llall (boed drwy ei dynnu neu drwy ei gludo ar gefn cerbyd modur neu ôl-gerbyd) ac unrhyw gerbyd modur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo…. “gallai hyn gynnwys rhai mathau o gabanau, podiau, cytiau bugeiliaid, neu debyg, ond nid yw’n cynnwys pebyll.”***

**Cynllunio**
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

**Amrywiol**
Deddf Cydraddoldeb 2010
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995

Gorchmynion Cadw Coed
Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017

Cysylltwch â'r adran drwyddedu os bydd perchennog y safle yn newid, neu os oes unrhyw newidiadau i'r caniatâd cynllunio neu i gynllun y safle. Mae'n debygol y bydd angen diwygio trwydded y safle i adlewyrchu'r newidiadau.

**ATODLEN AMODAU TRWYDDED AR GYFER SAFLEOEDD CARAFANNAU GWYLIAU SEFYDLOG**

1. CYNLLUN
Rhaid rhoi cynllun o'r safle i'r awdurdod lleol wrth wneud cais am drwydded neu pan fo newid sylweddol i'r ffiniau neu drefn y safle, neu os bydd yr awdurdod yn gofyn amdano. Rhaid i'r cynllun ddangos yn glir osodiad a threfn y safle gan gynnwys yr holl strwythurau, nodweddion a chyfleusterau perthnasol arno.

2. Y BWLCH RHWNG CARAFANNAU

a) Rhaid peidio gosod unrhyw garafán neu strwythur llosgadwy o fewn 3 metr i'r ffin. Mae'n bosibl y bydd y pellter yn llai ar safleoedd sefydledig a rhaid i'r awdurdod tân edrych ar y rhain a'u cymeradwyo drwy asesiad risg tân cymeradwy'r safle.

b) Rhaid i'r pellter rhwng carafannau a wneir o alwminiwm neu o ddeunydd arall sydd â nodweddion perfformiad tân tebyg fod yn ddim llai na 5m rhwng unedau, 3.5m ar y corneli. Ar gyfer y rheini sydd wedi'u gwneud o bren haenog neu debyg ni chaiff fod yn llai na 6m. Mae'n bosibl y bydd y pellter yn llai ar safleoedd sefydledig a rhaid i'r awdurdod tân edrych ar y rhain a'u cymeradwyo drwy asesiad risg tân cymeradwy'r safle.

c) Gall unrhyw adeiledd sydd ynghlwm wrth uned ymwthio hyd at un metr i'r pellter gwahanu 5/6m. Ni ddylai'r strwythur hwn fod yn uwch nag uchder yr uned. Mae'n bosibl y deuir ar draws rhai mwy o faint ar safleoedd sefydledig a rhaid i'r awdurdod tân roi sylw iddynt a'u cymeradwyo drwy asesiad risg tân cymeradwy'r safle.

d) Caniateir garej neu sied yn y bwlch 6m rhwng unedau, rhaid iddynt fod o wneuthuriad nad yw'n llosgadwy. Er mwyn ceisio cadw tân rhag lledaenu, rhaid cael 3m o fwlch clir bob amser.

3. FFYRDD, MYNEDFEYDD A LLWYBRAU TRAED

a) Rhaid i ffyrdd fod â digon o le i lwybrau a cherbydau brys a rhaid eu cadw'n glir o rwystrau bob amser.

b) Rhaid i bob ffordd fedru draenio dŵr wyneb/storm yn ddigonol.

c) Ni chaiff ffyrdd dwyffordd fod yn llai na 3.7m o ran lled, neu 3m o led os ydynt yn ffurfio rhan o system draffig unffordd; pan nad yw ffyrdd dwyffordd sy'n bodoli eisoes yn 3.7 metr o led, rhaid darparu mannau pasio lle bo hynny'n ymarferol.

d) Rhaid cael arwyddion clir i ddangos system unffordd.

e) Rhaid i'r fynedfa i gerbydau a'r holl fynedfeydd i'r safle fod o leiaf 3.1 metr o led a rhaid iddynt fod ag uchder o 3.7 metr ar y lleiaf.

f) Rhaid cynnal a chadw ffyrdd, palmentydd a llwybrau troed cymunedol mewn cyflwr da; a rhaid iddynt fod â digon o olau rhwng y nos a'r wawr i gerddwyr a cherbydau symud yn ddiogel o amgylch y safle.

4 ARWYNEB CALED
Rhaid i bob carafán sefyll ar lawr caled o ddeunydd addas. Rhaid i'r llawr hwn ymestyn ar draws yr ardal gyfan a feddiannir gan y garafán sydd arni, ac mae'n rhaid iddo ymestyn tuag allan yn ddigonol o fynedfeydd y garafán i alluogi deiliaid i fynd i mewn ac allan yn ddiogel.

5. DIOGELWCH NWY
a) Rhaid i gyflenwadau, storio a gosodiadau nwy fodloni rhannau perthnasol unrhyw ddeddfwriaeth, Safonau Prydeinig a Chodau Ymarfer y Gymdeithas Nwy LP sydd mewn grym ar unrhyw adeg. Rhaid darparu unrhyw dystysgrifau perthnasol i'r Cyngor ar gais.

b) Rhaid i unrhyw offer nwy gael ei gynnal a'i brofi yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth neu Godau Ymarfer cyfredol sydd mewn grym ar unrhyw adeg. Rhaid darparu unrhyw dystysgrifau perthnasol i'r Cyngor ar eu cais.

6. DIOGELWCH TRYDANOL
a) Rhaid i'r safle fod â rhwydwaith trydan sydd â digon o gapasiti i fod yn ddiogel wrth fodloni holl ofynion rhesymol y carafannau a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau eraill sydd ynddo.

b) Rhaid gosod, profi a chynnal pob gosodiad trydanol yn unol â'r rheoliadau a'r statudau perthnasol. Dim ond person cymwys ddylai wneud gwaith ar osodiadau ac offer trydanol. Dylid archwilio'r gosodiad bob blwyddyn neu fel y nodir fel arall gan drydanwr cymwys a fydd yn cyflwyno adroddiad o'r archwiliad yn y fformat rhagnodedig. Rhaid cywiro unrhyw ddiffygion.

7. CYFLENWAD DŴR
a) Rhaid cael digon o gyflenwad o ddŵr yfed dihalog.

b) Rhaid darparu'n foddhaol ar gyfer draenio dŵr budr, naill ai drwy gysylltu â charthffos gyhoeddus neu waith trin carthion neu drwy ollwng i danc carthion neu garthbwll sydd wedi'i adeiladu'n briodol ac wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol.

8. SBWRIEL
a) Rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer storio, casglu a gwaredu sbwriel a'i reoli i atal pla, tân neu unrhyw effaith arall ar iechyd y cyhoedd.

b) Rhaid cael contract achrededig a chymeradwy ar gyfer gwastraff.

c) Rhaid cadw'r safle mewn cyflwr taclus a'i gadw'n glir o sbwriel a gwastraff.

9. HYSBYSIADAU

a) Rhaid arddangos yr arwyddion/hysbysiadau canlynol mewn man amlwg:
   - Enw'r safle
   - Trwydded y safle
   - Enw a rhif ffôn rheolwr a deiliad y drwydded (lle bo'n berthnasol)
   - Manylion cysylltu mewn argyfwng yn dangos beth i'w wneud petai argyfwng a hefyd yn dangos sut y gellir cysylltu â'r heddlu, y frigâd dân, ambiwlans a meddygon lleol.

b) Yn ogystal, rhaid cael y canlynol i fod ar gael i'w harchwilio:

- copi o drwydded y safle gan gynnwys amodau'r drwydded;
- copi o'r adroddiad archwiliad trydanol cyfnodol diweddaraf;
- unrhyw dystysgrifau diogelwch nwy perthnasol;
- y fersiwn diweddaraf o'r asesiad risgiau tân a gynhaliwyd o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005;
- copi o dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol.

10. LLIFOGYDD

Rhaid i berchennog y safle bennu a yw'r safle mewn perygl o lifogydd drwy gyfeirio at Fap Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Os oes perygl llifogydd, rhaid i berchennog y safle ofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru am gyngor ar y tebygolrwydd o lifogydd, dyfnder a chyflymder y dŵr y gellid ei ddisgwyl, pa wasanaeth rhybuddio sydd ar gael a pha fesurau priodol i'w cymryd.

**Atodiad D - Amodau Arfaethedig Carafannau Gwyliau Teithiol**

Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960
**Amodau Arfaethedig Carafannau Gwyliau Teithiol**

**GOFYNION STATUDOL A RHEOLEIDDIOL AR BERCHNOGION SAFLE**
Yn ogystal â'r amodau a osodir gan y drwydded safle hon, mae meysydd eraill lle mae angen i safle fodloni gofynion statudol deddfwriaethau mwy penodol. Cyfrifoldeb perchennog y safle yw cydymffurfio neu roi sylw i unrhyw ofynion, rheoliadau a chodau ymarfer statudol sy'n berthnasol ar unrhyw adeg. Nid yw'r rhestr ganlynol yn hollgynhwysfawr, ond fe'i rhestrir fel arweiniad. Mae deddfwriaeth a chanllawiau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd, a bydd angen i berchennog y safle sicrhau ei fod yn defnyddio'r ddeddfwriaeth/canllawiau diweddaraf.

**Iechyd a Diogelwch**
Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974

**Diogelwch Tân**
Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

**Diogelwch Trydanol**
Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989

**Diogelwch Nwy**
Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998

**Safleoedd Carafannau a Chartrefi Symudol**
Deddf Cartrefi Symudol 1983
Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013
Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960
Deddf Safleoedd Carafannau 1968

Diffiniad o garafán:
***"…unrhyw strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo ac sy'n gallu cael ei symud o'r naill le i'r llall (boed drwy ei dynnu neu drwy ei gludo ar gefn cerbyd modur neu ôl-gerbyd) ac unrhyw gerbyd modur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo"….*** *"gallai hyn gynnwys rhai mathau o gabanau, podiau, cytiau bugeiliaid, neu debyg, ond nid yw'n cynnwys pebyll."*

**Cynllunio**
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

**Amrywiol**
Deddf Cydraddoldeb 2010
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
Gorchmynion Cadw Coed
Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017

Cysylltwch â'r adran drwyddedu os bydd perchennog y safle yn newid, neu os oes unrhyw newidiadau i'r caniatâd cynllunio neu i gynllun y safle. Mae'n debygol y bydd angen ailgyhoeddi trwydded y safle i adlewyrchu'r newidiadau.

**ATODLEN AMODAU TRWYDDED AR GYFER SAFLEOEDD CARAFANNAU GWYLIAU TEITHIOL**

**1. CYNLLUN**

Rhaid rhoi cynllun o'r safle i'r awdurdod lleol wrth wneud cais am drwydded neu pan fo newid sylweddol i ffiniau neu drefn y safle, neu os bydd yr awdurdod yn gofyn amdano. Rhaid i'r cynllun ddangos yn glir osodiad a threfn y safle gan gynnwys yr holl strwythurau, nodweddion a chyfleusterau perthnasol arno.

**2. Y BWLCH RHWNG CARAFANNAU**

a) Rhaid peidio gosod unrhyw garafán neu strwythur llosgadwy o fewn 3 metr i'r ffin. (Mae'n bosibl y bydd y pellter yn llai ar safleoedd sefydledig a rhaid i'r awdurdod tân edrych ar y rhain a'u cymeradwyo drwy asesiad risg tân cymeradwy'r safle.)

b) Rhaid i bob carafán fod o leiaf 6m oddi wrth unrhyw garafán arall. Caniateir cerbydau, cychod ac/neu adlenni o fewn y bwlch 6m rhwng unedau ond er mwyn cyfyngu ar ymlediad tân rhaid bob amser cael 3m o le clir. (Rhaid i fwlch llai gael sylw'r awdurdod tân a'u cymeradwyo drwy asesiad risg tân cymeradwy'r safle.)

c) Rhaid cadw'r llwybrau i gerbydau brys yn glir rhag rhwystrau a rhaid i bob cerbyd o'r fath bob amser fedru cael mynediad o fewn 90 metr i unrhyw uned ar y safle.

**3. DIOGELWCH NWY**

Rhaid i gyflenwadau a gosodiadau nwy fodloni rhannau perthnasol unrhyw ddeddfwriaeth, Safonau Prydeinig a Chodau Ymarfer y Gymdeithas Nwy LP sydd mewn grym ar unrhyw adeg. Rhaid darparu unrhyw dystysgrifau perthnasol i'r Cyngor ar gais.

**4. DIOGELWCH TRYDANOL**

a) Rhaid i'r safle fod â rhwydwaith trydan sydd â digon o gapasiti i fod yn ddiogel wth fodloni holl ofynion rhesymol y carafannau a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau eraill sydd ynddo.

b) Rhaid gosod, profi a chynnal pob gosodiad trydanol yn unol â'r rheoliadau a'r statudau perthnasol. Dim ond person cymwys ddylai wneud gwaith ar osodiadau ac offer trydanol. Dylid archwilio'r gosodiad bob blwyddyn neu fel y nodir fel arall gan drydanwr cymwys a fydd yn cyflwyno adroddiad o'r archwiliad yn y fformat rhagnodedig. Rhaid cywiro unrhyw ddiffygion.

**5. CYFLENWAD DŴR**

a) Rhaid cael digon o gyflenwad o ddŵr yfed dihalog. Rhaid i bob llain ar y safle fod o fewn 90 metr i dap dŵr.
b) Rhaid darparu'n foddhaol ar gyfer draenio dŵr budr, naill ai drwy gysylltu â charthffos gyhoeddus neu waith trin carthion neu drwy ollwng i danc carthion neu garthbwll sydd wedi'i adeiladu'n briodol ac wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol.
c) Rhaid darparu mannau gwaredu wedi'u cynllunio'n briodol ar gyfer cynnwys toiledau cemegol, gyda digon o ddŵr yn cael ei gyflenwi ar gyfer glanhau'r cynwysyddion.

**6. TOILEDAU/CAWODYDD**

a) Rhaid cael golau addas yn y blociau toiledau/cawodydd.
b) Rhaid darparu toiledau a chawodydd a'u cadw mewn cyflwr da ac yn lân a rhaid iddynt bob amser fod ar gael yn rhwydd pan fo'r safle yn weithredol. Ar y lleiaf, rhaid darparu'r cyfleusterau canlynol
   - (xx*) toiled
   - (xx*) basn ymolchi sydd â dŵr poeth ac oer
   - (xx*) cawod sydd â dŵr poeth

[ * yr union nifer i'w mewnosod yn dibynnu ar nifer y lleiniau. Dylid eu cyfrif fel a ganlyn – 1 toiled ac 1 basn ymolchi ar gyfer pob 10 llain; 1 gawod ar gyfer pob 15 llain; gall safleoedd sydd â mwy na 100 o leiniau amrywio'r ddarpariaeth trwy gytundeb â'r Cyngor]

c) Rhaid gwneud trefniadau ar gyfer derbyn a gwaredu deunydd misglwyf.

d) Dylai defnyddwyr cadeiriau olwyn allu cael mynediad a defnyddio'r cyfleusterau glanweithiol a ddarperir. Mae hyn yn gofyn am gyfran gytunedig o doiledau a chawodydd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Rhaid i safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio â'r amod hwn ar ddyddiad rhoi'r drwydded hon gydymffurfio cyn gynted ag y bydd cyfleusterau glanweithiol y safle yn cael eu hadnewyddu, eu hailadeiladu neu eu hymestyn.

**7. SBWRIEL**

a) Rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer storio, casglu a gwaredu sbwriel a'i reoli i atal pla, tân neu unrhyw effaith arall ar iechyd y cyhoedd.

b) Rhaid cael contract achrededig a chymeradwy ar gyfer gwaredu gwastraff.

c) Rhaid cadw'r safle mewn cyflwr taclus a'i gadw'n glir o sbwriel a gwastraff.

**8. HYSBYSIADAU**

a) Rhaid arddangos yr arwyddion/hysbysiadau canlynol mewn man amlwg:
   - Enw'r safle
   - Trwydded y safle
   - Enw a rhif ffôn rheolwr a deiliad y drwydded (lle bo'n berthnasol)

- Manylion cysylltu mewn argyfwng yn dangos beth i'w wneud petai argyfwng a hefyd yn dangos sut y gellir cysylltu â'r heddlu, y frigâd dân, ambiwlans a meddygon lleol.

b) Yn ogystal, rhaid cael y canlynol i fod ar gael i'w harchwilio:
- copi o drwydded y safle gan gynnwys amodau'r drwydded;
- copi o'r adroddiad archwiliad trydanol cyfnodol diweddaraf;
- unrhyw dystysgrifau diogelwch nwy perthnasol;
- y fersiwn diweddaraf o'r asesiad risgiau tân a gynhaliwyd o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005;
- copi o dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol.

**10. LLIFOGYDD**
Rhaid i berchennog y safle bennu a yw'r safle mewn perygl o lifogydd ai peidio drwy gyfeirio at Fap Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Os oes perygl llifogydd, rhaid i berchennog y safle ofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru am gyngor ar y tebygolrwydd o lifogydd, dyfnder a chyflymder y dŵr y gellid ei ddisgwyl, pa wasanaeth rhybuddio sydd ar gael a pha fesurau priodol i'w cymryd.

**11. GOLEUADAU**
Mae safleoedd carafannau gwyliau teithiol yn amrywio o ran natur a chymeriad, gwerthfawrogir bod awyr dywyll y Gorllewin a'r Canolbarth yn atyniad i lawer o ymwelwyr, ac felly byddai effaith gofyniad gorfodol i gael goleuadau artiffisial ledled y safle yn tynnu'n groes i hynny. Mater i berchnogion safleoedd fydd asesu'r angen/graddau'r goleuadau artiffisial o amgylch y safle yn seiliedig ar natur y safle ac anghenion y rhai sy'n debygol o ymweld. Os penderfynir peidio â gosod goleuadau artiffisial, dylid sicrhau bod ymwelwyr â'r safle yn gwybod hynny ymlaen llaw er mwyn iddynt ddod â thortsh neu debyg i symud yn ddiogel o amgylch y safle pan fydd hi'n dywyll.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 6

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgor Anstatudol) |
| **DYDDIAD:** | 14 Gorffennaf 2022 |
| **LLEOLIAD:** | Cyfarfod rhithwir |
| **TEITL:** | Adroddiad am y ffioedd arfaethedig ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Er gwybodaeth** |

**CEFNDIR:**

Cyflwynwyd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 (y ddeddfwriaeth) er mwyn cael gwell amddiffyniad i les anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu fel anifeiliaid anwes. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi gofyniad ar ragor o werthwyr preifat anifeiliaid anwes i gael eu trwyddedu, er mwyn sicrhau bod amddiffyniadau lles yr anifeiliaid yn berthnasol. Maent hefyd yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch trwyddedu Siopau Anifeiliaid Anwes. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn dod â rhagor o werthwyr anifeiliaid anwes o fewn y gyfundrefn drwyddedu, ac felly'n cyflwyno strwythur ffioedd ehangach. Mae angen cytuno ar y ffioedd newydd hyn er mwyn eu cyflwyno a thrwyddedu gwerthwyr anifeiliaid anwes.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

Rhoddwyd cyflwyniad i'r ddeddfwriaeth newydd drwy'r broses Ddemocrataidd yn 2021, ac mae'r adroddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad er mwyn rhoi cefndir llawn i'r ddeddfwriaeth.

Mae'r broses o gyfrifo ffioedd yn seiliedig ar adennill costau yn unig, ac maent yn dilyn y broses a ddefnyddir ar draws y swyddogaeth drwyddedu. Mae adolygiad o awdurdodau eraill wedi canfod bod lefel y ffioedd yn gyson.

**Ffioedd Arfaethedig**

| Math o drwydded | Ffi 2022/2023 | Gorfodi | Cyfanswm Ffi'r Drwydded (yn daladwy ar wahân) |
|---|---|---|---|
| **Trwydded Lawn Newydd (bach)** | 455.00 | 45.00 | 500.00 |
| **Trwydded Lawn Newydd (canolig)** | 545.00 | 45.00 | 590.00 |
| **Trwydded Lawn Newydd (mawr)** | 645.00 | 45.00 | 690.00 |
| **Adnewyddu (bach)** | 405.00 | 45.00 | 450.00 |
| **Adnewyddu (canolig)** | 450.00 | 45.00 | 495.00 |
| **Adnewyddu (mawr)** | 500.00 | 45.00 | 545.00 |
| | | | |
| **Ymweliad ymgynghori - swyddog** | 45 yr awr | | |
| **Ymweliad ymgynghori - milfeddyg** | Y gost gyfredol | | |
| | | | |
| **Nodiadau** | | | |
| Bach – gwerthu fel hobi gan fod â 10 neu lai o anifeiliaid (200 pysgodyn) ar werth ar unrhyw adeg penodol | | | |
| Canolig – gwerthu fel hobi gan fod â mwy na 10 o anifeiliaid, ac eiddo masnachol bychan | | | |
| Mawr – eiddo masnachol mawr | | | |

Mae'r ffi gorfodi wedi'i chynnwys yn ffioedd 2022/2023 er mwyn talu am y gwaith ychwanegol y mae'n rhaid i'r awdurdod ei wneud i nodi'r rheiny sy'n gweithredu heb drwydded. Wrth i weithredwyr nad oeddent o'r blaen yn gorfod cael trwydded "ymuno", yna bydd yr angen am y ffi hon yn lleihau. Rhestrir y taliadau gorfodi ychwanegol yn y ddeddfwriaeth.

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam**

Mae'r ddeddfwriaeth yn ofyniad statudol

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

***Crynodeb:***

**Hirdymor:** Diogelu'r Cyhoedd, mae lles anifeiliaid yn ddyletswydd statudol ar yr awdurdod ac yn cyfrannu at y nodau Llesiant sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| | |
|---|---|
| **Integreiddio:** | Mae gweithgarwch Diogelu'r Cyhoedd yn cyd-fynd ag amcanion partneriaid iechyd ac yn cyfrannu at nifer o'r nodau Llesiant sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| **Cydweithio:** | Mae Diogelu'r Cyhoedd yn cydweithio'n helaeth ag asiantaethau partner gan gynnwys yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Awdurdodau Lleol eraill, Heddlu Dyfed-Powys, Llywodraeth Cymru, yr RSPCA |
| **Cynnwys:** | Mae gweithgarwch gorfodi Diogelu'r Cyhoedd yn dechrau drwy wneud gwaith ymgysylltu ac annog, a hyrwyddo cydymffurfio â deddfwriaeth. |
| **Atal:** | Mae pwyslais ar atal gan fod prosesau yn sicrhau bod nifer o wiriadau a mesurau diogelu ar waith cyn i weithgaredd gael ei ganiatáu neu ei drwyddedu. |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 10 Gorffennaf 2022 i gael penderfyniad. |

| | |
|---|---|
| **ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):** | Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig. |
| **RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):** | Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig. |

| | |
|---|---|
| **Enw cyswllt:** | **Heddwyn Evans** |
| **Swydd:** | **Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd** |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | **9fed Mehefin 2022** |
| **Papurau Cefndir:** | Adroddiad y Cabinet ar gyflwyno Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021. |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol